DYDD MIWSIG CYMRU | WELSH LANGUAGE MUSIC DAY

# SUT GALL DY FUSNES GYMRYD RHAN YN DYDD MIWSIG CYMRU?

## BETH YW DYDD MIWSIG CYMRU?

Mae Dydd Miwsig Cymru (dydd Gwener 7 Chwefror 2025) yn dathlu pob math o fiwsig Cymraeg, o indi, roc, pync, ffync, gwerin, electronica i hip hop a phopeth arall dan haul. Dyma'r degfed Dydd Miwsig Cymru, felly beth am ymuno â'r dathliadau?

Mae nifer o fusnesau wedi cefnogi'r diwrnod yn y gorffennol, gan gynnwys EE, Dŵr Cymru, Marks and Spencer, Admiral, John Lewis, Waitrose, KFC, Co-Op, BT, S.A Brains & Co a Lush. Mae'n nhw wedi mynd ati i gefnogi drwy gynnal gigs yn eu siopau, gwneud addewid i ychwanegu miwsig Cymraeg at eu rhestrau chwarae yn barhaus, chwarae miwsig Cymraeg yn unig mewn canghennau ar y dydd, a rhannu rhestrau chwarae Cymraeg gyda'u miloedd o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol – mae'n hawdd iawn cymryd rhan, a gallwn ni helpu.

Os bydd dy fusnes yn dathlu o'r gweithle neu o gartref, mae nifer o ffyrdd i gymryd rhan.

## SUT FEDRU DI / DY FUSNES GYMRYD RHAN YN DYDD MIWSIG CYMRU?

- Gwna addewid i chwarae miwsig Cymraeg yn y swyddfa, mewn canghennau, yn y siop neu'r caffi ar y diwrnod neu drwy gydol y flwyddyn. Defnyddia ein rhestrau chwarae i greu naws ar gyfer pob math o achlysur, neu gallwn ni greu rhestr chwarae yn arbennig ar dy gyfer - hola ni.
- Cynhalia gig gydag artist Gymraeg yn eich lle busnes.
- Newidia lun proffil / baner dy gyfryngau cymdeithasol i frand Dydd Miwsig Cymru – sydd ar gael YMA.
- Paid aros tan Dydd Miwsig Cymru i rannu dy hoffter o fiwsig Cymraeg, i ddarganfod dy hoff gân newydd neu i ymuno â'r sgwrs, dilyna @Cymraeg neu chwilia am #Miwsig a #DyddMiwsigCymru. Byddwn ni'n rhannu dy negeseuon ac yn sôn wrth ein cynulleidfa am beth rwyt ti'n ei wneud.

## TEMPLEDI NEGESEUON CYFRYNGAU CYMDEITHASOL:

*Os oes gen ti negeseuon cyfryngau cymdeithasol sydd angen eu cyfieithu, anfona nhw aton ni o leiaf wythnos ymlaen llaw (cyn 7 Chwefror) ac fe wnawn ni dy helpu*

| CYMRAEG | ENGLISH |
|---|---|
| Fel cwmni o Gymru, mae'r Gymraeg yn bwysig iawn i ni. Dyna pam ein bod yn gwneud addewid i chwarae miwsig Cymraeg trwy gydol y flwyddynyn dilyn #DyddMiwsigCymru @Cymraeg | As a Welsh company, the Welsh language is important to us. That's why from #DyddMiwsigCymru onwards we pledge to play Welsh language music all year round @Cymraeg |
| I ddathlu #DyddMiwsigCymru fory, rydyn ni'n chwarae miwsig Cymraeg drwy'r dydd. @Cymraeg | To celebrate #DyddMiwsigCymru tomorrow, we are playing Welsh language music all day. @Cymraeg |
| Ar gyfer #DyddMiwsigCymru eleni rydyn ni'n gwrando ar un o'r rhestrau chwarae arbennig. Cer i wrando hefyd! @Cymraeg https://open.spotify.com/user/miwsig | For this #DyddMiwsigCymru we're listening to one of the specially curated playlists. You can listen to it too! @Cymraeg https://open.spotify.com/user/miwsig |
| Mae gennym ni fandiau ac artistiaid Cymraeg anhygoel yng Nghymru. Heddiw, rydyn ni'n gwrando ar [noda enw'r artist yma] i baratoi ar gyfer #DyddMiwsigCymru fory. @Cymraeg | We have some amazing Welsh language bands and artists here in Wales. Today, we're listening to [insert artist here] in preparation for tomorrow's #DyddMiwsigCymru. @Cymraeg |



## BRANDIO

Rydym wedi creu celfwaith newydd sbon ar gyfer 2025 sydd ar gael i'w lawrlwytho YMA.
Posteri digidol: Rydyn ni hefyd wedi creu posteri i ti allu cynnwys gwybodaeth am sut rwyt ti'n cymryd rhan yn Dydd Miwsig Cymru YMA.

## CADWA MEWN CYSYLLTIAD

Dilyna ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael gwybod y diweddaraf am ddigwyddiadau Dydd Miwsig Cymru, pa fiwsig newydd sy'n cael ei ryddhau a sut i gymryd rhan.
Facebook @Cymraeg
X @Cymraeg
Instagram @Cymraeg_welsh
TikTok @Cymraeg_
Youtube @Cymraeg

## BETH AM SGWRS?

Os wyt ti am gael cymorth i ddathlu Dydd Miwsig Cymru ac am gael peth o'r deunydd marchnata uchod, neu os oes gen ti ymholiad ar ran y wasg, cysyllta â Gwilym Hughes
gwilym.hughes@workingword.co.uk

